## MALDWYN THOMAS yn mentro i fro'r cysgodion

# Hunllefau Judith Hall Williams

BU FARW Judith Hall Williams yng Nghaernarfon yn ystod oriau mân y bore ar 21 Medi 1888. Y mae achos ei marwolaeth yn ddirgelwch.

Bellach, daeth ei dyddiadur am y flwyddyn hon i olau dydd. Gall roi goleuni ar ddirgelwch digwyddiadau 21 Medi 1888.

Roedd Judith Hall Williams yn ddeg ar hugain oed adeg ei marwolaeth, yn briod â Richard Hall Williams; fe'u priodwyd yng Nghonwy yn 1882 *(C.D.H.)*. Yr oedd Richard Hall Williams yn hŷn na'i wraig o dair blynedd ar ddeg *(G.G.)*, ac yn ŵr gweddol amlwg 'yng nghylchoedd ariannol' yr hen sir, yn gyfrifydd ar ei liwt ei hun, yn ogystal â bod yn un o gyfarwyddwyr banc Pugh a Jones.

Roedd y banc hwn yn llewyrchus gyda nifer o ganghennau, ym Mhwllheli, Porthmadog a Dolgellau — bu 'Gwyneddon' yn rheolwr cangen Caernarfon ar ôl tymor terfysglyd yn argraffydd a golygydd cyntaf *Y Goleuad* (1869).

Gŵr cyhoeddus oedd John Davies — ar lwyfan dirwest, datgysylltiad a Rhyddfrydiaeth, ond nid dyn felly mo Richard Hall Williams, dyn encilgar a chysáct oedd o, dyn y llyfr cownt yn hytrach na'r llwyfan, dyn gwleidyddiaeth ochelgar yn hytrach na'r talwrn gwleidyddol, dyn a oedd yn fodlon byw yng nghysgodion cymeriadau mwy nerthol nag ef.

Ymysg y cymeriadau pwerus hyn yr oedd ei gymydog a'i gyd-gyfarwyddwr yn y banc, sef Hugh Pugh, Llys Meirion — yn wir Hugh Pugh oedd prif berchennog y banc, gŵr hynod o gyfoethog.

Rhyddfrydwr amlwg, ac un o sefydlwyr y 'Carnarvon Printing Company', y cwmni a sefydlwyd er mwyn lansio'r *Genedl Gymreig* radicalaidd yn 1877 er mwyn ceisio dymchwel papurau'r *Herald* — a'r *Herald Cymraeg* yn arbennig — y papur newydd yr oedd nifer o Ryddfrydwyr blaenllaw yn ei gondemnio am fuddugoliaeth y Tori Douglas Pennant, aer y Penrhyn, yn etholiad ffyrnig 1874.

* * * *

ROEDD Llys Meirion, cartref palasaidd Hugh Pugh, ar lechwedd bychan uwchben y Fenai, ac yr oedd Gwylfa, tŷ Richard Hall Williams yntau gerllaw, yn solat yn ei lawntiau a'i erddi, y tu mewn i wal garreg uchel. Tŷ sylweddol, ond yn ôl y ddau ddarlun ohono sydd wedi goroesi, tŷ hynod o drist a digalon yr olwg. Fe ddymchwelwyd y ddau dŷ cyn yr Ail Ryfel Byd.

Bywyd rhinweddol fu bywyd priodasol byr Judith Hall Williams. Roedd hi'n un o'r merched braf eu byd a oedd yn arfer trefnu'r gegin gawl flynyddol, gan arlwyo ar gyfer 'anffodusion iselaf ein cymdeithas,' yn ardal y porthladd, a strydoedd salw Turkey Shore a Balaclafa *(H.C.)*.

Yr oedd Judith hefyd yn un o ferched ariannog cynulleidfa Moriah'r Trefnyddion a fu'n trefnu'r 'Grand Bazaar' yn y capel yn ystod Rhagfyr 1886 *(G.G.)*. Dyma'r Judith gyhoeddus.

* * * *

MAE'R dyddiadur yn mesur 4¼" × 6¾" yn ei gloriau melfed brown, gydag enw 'Judith Hall Williams, Gwylfa, Carnarvon' y tu mewn i'r clawr blaen. Mae ganddi fanylion achlysurol bylchog am fisoedd y gwanwyn a haf cynnar 1888, ond mae tudalennau Gorffennaf, Awst a hanner cyntaf Medi 1888 yn llawn o lawysgrifen onglog Judith.

Ysgrifennai yn Gymraeg ac yn Saesneg, defnyddiai'r Gymraeg yn gyson wrth gofnodi sgwrs, yn enwedig ei sgyrsiau efo'i phrif forwyn, Catherine Davies.

Ceir manylion am fywyd yn y tŷ ar brydiau, cyfarwyddiadau i'r gogyddes a'r garddwr, disgrifiadau deniadol am ddanteithion Emporium y 'Nelson' yn Stryd y Bont Bridd, ambell sylw ar bregethau y Parchedig Evan Jones, ei gweinidog ym Moriah.

Cyfeirir hefyd at un daith arbennig yn y *landau* yng nghwmni'i gŵr, taith ar lannau'r Fenai am y Foryd a dolydd plwyf Llanfaglan. Yng nghanol Medi 1888 y bu hyn. Efallai bod y daith hon yn niwedd yr haf yn arwyddocaol yn hanes marwolaeth Judith.

Ychydig o gwmni'i gŵr a ddaeth i ran Judith yn ystod 1888, blwyddyn lwyddiannus yn hanes ei fusnes ef. Bu'n prynu eiddo yng Nghaernarfon, Llanberis a'r Felinheli, roedd yn gyfarwyddwr y 'Carnarvon Pavilion Company', arena wleidyddol a diwylliannol Gwynedd, ddwy filltir o Gwylfa.

Yn ystod yr un flwyddyn yr oedd Richard Hall Williams wedi ymuno â bwrdd cyfarwyddwyr cwmni'r *Genedl Gymreig* a'r *Werin*, yn sgil anogaeth W. J. Parry, y prif olygydd: *'Welcome aboard . . . we shall soon see the* Herald *people off . . .' (W.J.P.)*, cyfeiriad optimistaidd at yr ymgais i lorio Richard Fletcher Smith a Frederick Coplestone, perchenogion grŵp yr *Herald*, dau Sais o Gaer.

Dïau mai gochelgarwch Richard Hall Williams a'i cadwodd — ac a'i harbedodd — rhag buddsoddi'n helaeth yn y papurau, ac yr oedd o hefyd yn cadw W. J. Williams, cyfrifydd cwmni'r *Genedl*, hyd braich go hir oddi wrtho a'i fusnes.

* * * *

YR OEDD cwmwl ar y ffurfafen las. Cyflwr iechyd Judith oedd hwnnw. Roedd gair amdani fel merch eiddil, yr oedd ei meddyg, y Dr Henry V. Roberts, yn hen gyfarwydd â galw yn y Gwylfa.

Erbyn haf 1888 yr oedd cyflwr iechyd ei meistres wedi bod yn destun pryder arbennig i'r forwyn, Catherine; dydd ar ôl dydd fe welai'r wraig ifanc yn nychu, yn gwywo, ei gwedd yn llwyd, y cysgodion yn enfawr o dan ei llygaid, yr ymdrech feunyddiol i godi o'r gwely yn y bore, y dirywiad corfforol, y llusgo llipa o gwmpas ystafelloedd y tŷ mawr.

Ymateb Richard Hall Williams oedd taflu'i hun yn feudwyaidd ddi-ddweud i ragor o waith a rhoi'r cyfrifoldeb am fywyd Judith ar ysgwyddau'r forwyn. Cyfrifoldeb a oedd yn faich affwysol gan fod Richard Hall Williams oddi cartref yn aml iawn iawn, ar fusnes yng Nghaer, yn Lerpwl a Llundain.

Ar yr adegau hynny, meddai'r forwyn yn ei thystiolaeth, fe fyddai'i meistres yn dioddef hunllefau ofnadwy, ddwywaith, weithiau deirgwaith yn ystod un noson.

Roedd llofft Catherine ar yr un landin ag ystafelloedd gwely Judith a'i gŵr — arfer y ddau oedd cysgu ar wahân — ond ni fyddai'r forwyn byth yn cael mynd i'r llofft i geisio tawelu'i meistres hyd yn oed yn anterth creulon yr hunllefau *(G.G./H.C.)*. Roedd drws yr ystafell welly wedi cael ei gloi o'r tu mewn ar ôl naw o'r gloch bob nos *(H.C.)*.

* * * *

AR BRYNHAWN braf ar y deunawfed o Fedi 1888, yr oedd Judith, yn ystod y daith fer ar lannau'r Fenai, wedi ymbil ar ei gŵr i aros gartref, a pheidio â mynd ar daith ynglŷn â'i fusnes, taith a oedd yn golygu y byddai oddi cartref y noson hono, a'r ddwy noson ganlynol.

Mae'n ymddangos bod Judith wedi ymbil yn ei dagrau, ond yn ofer. Roedd galwadau'r fasnach yn galw'n daerach ar ei gŵr na dagrau'i wraig: *'I feel myself abandoned this night'*, oedd ei sylw yn y dyddiadur (18 Medi), nodyn a gofnodwyd am saith o'r gloch yn yr hwyr.

Yr un oedd y drefn wrth noswylio'r noson hon â phob noson arall. Roedd Judith yn ei llofft erbyn hanner awr wedi wyth, fe fu'n eistedd wrth y bwrdd gwisgo yn brwshio'i gwallt hir am beth amser. Yno yr oedd hi pan ddaeth Catherine â'r gwydriad nosweithiol o lefrith cynnes iddi, yn eistedd yng ngoleuni coch marw'r machlud draw dros y Fenai.

Gwyddai'r forwyn mai dyletswydd a gorchwyl ofer oedd dod â'r llefrith i'w meistres, fe fyddai hwnnw yno yn y bore, fel pob bore arall, wedi hen oeri, wedi'i adael heb ei flasu.

Am un ar ddeg yr un noson yr oedd Catherine yn curo'n orffwyll ar ddrws llofft ei meistres, ar ôl iddi glywed Judith, yng ngrafangau hunllef arall yn sgrechian, yn ymbil ar rywun. Yr oedd y drws wedi'i gloi, ac ymhen ychydig yr oedd hi'n dawelwch tywyll yn y Gwylfa.

Mae cofnod y dyddiadur am 19 Medi yn Gymraeg, ac yn cynnwys cyfeiriad at 'yr anwylyd' ddwywaith ac at 'bleser poen fy anesmwyth hoen'. Dyma'r bore y sylwodd y forwyn ar ei meistres wedi'i lapio efo sgarff hir yn ymlwybro o gwmpas yr ardd lysiau, er bod yr ymdrech bron â'i llethu. Erbyn pedwar yn y pnawn yr oedd Judith wedi gorchymyn i'r morynion gau llenni holl ffenestri'r tŷ, a chynnau y lampau *(H.C./C.D.H.)*.

* * * *

Y NOSON honno fe fu Catherine Davies yn gwrando mewn arswyd am awr a mwy y tu allan i ddrws llofft ei meistres. Fe glywodd Judith yn sgrechian, yn ymbil,

> *'Yr oedd rhai o eiriau'r trangcedig (sic) yn rhy anweddus i'w cofnodi mewn newyddiadur ar gyfer y cyhoedd.'*

oedd sylw gohebydd yr *Herald*, *(H.C. cf. G.G.)*. Ond er i'r forwyn guro'n daer, nid atebwyd mohoni.

Prin y gellir dadelfennu llawysgrifen onglog Judith Hall Williams yn ei dyddiadur drannoeth. Mae'r brawddegau yn anorffenedig, a nifer helaeth o eiriau unigol wedi'u dileu. Ond mae'r cyfeiriad at 'yr anwylyd' yma'n eglur eto, yn ogystal â'r cymal 'ildio fy nghorph yn llawen' *(dyddiadur, 20 Medi)*.

Galwodd y forwyn ar y Dr H. V. Roberts ar frys mawr ganol y bore, ac anfonwyd 'pellebyr' er mwyn galw Richard Hall

*I dud. 15*